LlGDS. 5. 219

# MARWNAD.

1 DAETH yr angeu glas a'i gleddau,
Dan dynesu at y drwsau,
Fe darawodd yn ddigysur,
Do, gwn, fel bradwr, un o'r brodyr:

2 Un JOHN WILLIAMS, y gwr tawel,
Ddangosodd i ni gysur lawer;
Fe aeth oddi yma 'n union,
I gael canu ar fynydd Seion.

3 At ei gwm'ni elai'n ufudd,
I gael canu yn dragywydd;
'Nawr mae 'n canu yno 'n beraidd,
A chlodfori 'r Oen, heb ddiwedd.

4 Ffarwel fo i fy ngwraig innau,
A fy mhlant, a'm holl berth'nasau,
'Nawr sy'n myn'd oddiyma 'n union,
I gael canu ar fynydd Seion.

5 'Roedd JOHN WILLIAMS yn ddyn gwirion,
Ac yn ofni Duw o'i galon:
Y brenin Dafydd sy' gydag yntau,
Yn cyd-ganu eu haur delynau

6 O Gastell Baili elai'r werin,
I'w ddwyn yno, gorff a chwffin:
A Rees Jones a fu ar weddi,
A Hopkin Owen yn pregethu,

[circa 1825]

X205'3 17737

7 A John Evans o Llwynyfforton,
Sy'n pregethu 'n awr yn gywrain,
A'r gynlleidfa yn ei wrando,
Fe fydd yno fawr ochneidio.

8 Mae John Evans ar hyd y gwledydd
Yn pregethu'r efengyl beunydd,
A phan gwelont ynte 'n dwad,
Rhoddant iddo fawr dderbyniad.

9 Christmas Evans, y gwr prysur,
Sy 'n pregethu'r Lân Ysgrythur,
A 'r holl dyrfa yn ei wrando,
Pawb sydd yno yn och'neidio ;

10 John Elias, y gwr prysur,
Sy 'n pregethu 'r efengyl gywir,
A'r holl dyrfa yn ei wrando,
Y mae yno fawr och'neidio :

11 Mae John Elias ar hyd y gwledydd
Yn pregethu'r efengyl beunydd,
A'r holl werin yn ei wrando,
Yno maent yn cyd-och'neidio.

12 Christmas ynte, ar hyd y gwledydd,
Sy 'n pregethu 'r efengyl beunydd,
A'r holl werin yn ei wrando,
Y mae yno fawr och'neidio,

13 Peder gynt, pan fu 'n trafaelu,
Yn gyd-gwmp'ni gyda 'r Iesu,
A phan clywai lais y ceiliog,
Fe drows ynddo chwerw syndod:

14 Peder wylai'r dw'r yn ddeigrau,
Am iddo wneuthur y fath bethau,
Ag i ddigio Crist yn union,
Wrth drafaeli 'mlaen yn ffyddlon.

15 Yn y nef mae'n canu'n beraidd,
A chlodfori 'r Oen heb ddiwedd.
Daniel ynte, ga's ei dowli,
I ffau'r llewod, gael ei lyncu;

16 Ond fe ddaeth oddi yno 'n union,
'Nawr mae 'n canu ar fynydd Seion;
Ac yn canu mae e'n beraidd,
A chlodfori 'r Oen heb ddiwedd.

17 Job, 'r oedd yntef yn wr gwirion,
Ac yn ofni Duw o'i galon,
Er ei fod e'n llawn cornwydon,
'Roedd e'n ofni Duw o'i galon:

18 'Nawr mae'n canu 'n uchel ddigon,
Fawl i'r Oen ar fynydd Seion.
Ei wraig a dd'wedai wrtho 'n groyw,
Melldithia Dduw, a byddi farw:

19 Yntau dd'wedai wrthi'n union,
Lleferaist fel un o'r ynfydion.
Lazarus ynte, dan gornwydion,
Sydd yn canu 'n uchel ddigon;

20 Ac yn canu yno'n beraidd,
I glodfori 'r Oen heb ddiwedd.
Mari Magdalen fu'n pechu,
Sydd yn uchel iawn yn canu:

21 Hon a olchodd Grist a'i deigrau;
Pwy a wnaeth hyn onid hithau.
Canu 'n awr mae hithau 'n beraidd,
A chlodfori 'r Oen heb ddiwedd.

22 Hefyd, ynte, yr hen Fanasse,
Fu yn pechu fel y mynne;
Ar ddiwedd dydd fe gafodd ynte
Ei ho gyda goleu 'r lampau:

23 Mae e'n canu yno 'n beraidd,
I glodfori 'r Oen heb ddiwedd,
Fe ddaw 'r udgorn i roi bloeddiau,
I alw 'r meirw i gyd o'r beddau;

24 Yna cwyd y saint yn union,
I gael canu ar fynydd Seion.
Moses ynte, a 'r hen broffwydi,
Sydd yn uchel iawn yn canu;

25 A'r holl saint a ddont o'u beddau,
I gyd-ganu gyda hwythau:
Yno canu wnant yn beraidd,
I glodfori 'r Oen heb ddiwedd.

26 Yn y nef y mae lle hyfryd,
I bob oedran, ac i'r ie'ngctyd:
Ac y maent hwy 'n canu 'n beraidd,
I glodfori 'r Oen heb ddiwedd.

DIWEDD.

James, Argraffydd, Merthyr.